Cyngor Cymuned Pentir

Dim gwrthwynebiad Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Fedi 2023

Yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00 y.h

Agenda

1. **Presennol: /Present**
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Orffennaf / July 2023**
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
    i. **Mantolen ariannol / Financial report**
    ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 30/08/2023**
    iii. **Trosglwyddo o'r Cyfrif Cadw i'r Cyfrif Cyfredol os bydd angen**
    iv. **Ail ran y Praesept**
7. **Taliadau yn ystod Mis Awst**

a.	**J D Gardening 3 x toriad £75 yn Caerhun**	**£ 225.00**
b.	**D W Lewis Torri gwair Awst**	**£ 745. 00**
c.	**Taliad PWLB**	**£508.13**
d.	**A Thomas – ailosod giat Canolfan Penrhos**	**£ 350.00**
e.	**Delwedd trwydded SSL**	**£ 91.15**

8. **Cynllunio / Planning**
    a. C23/0653/25/LL. Lleoliad Tan Y Grisiau Lôn Tan Y Grisia, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4YB Codi bloc stablau ac adeiladu menage
    b. C23/0670/25/CC Lleoliad New Campus, Ty Menai, Parc Menai, LL57 4DF Gwaith i goed sydd yn destyn gorchymyn gwarchod coed
    c. C23/0672/25/DA Lleoliad 1, Cilfach Crwys Penrhos Road, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2QA Diwygiad ansylweddol i ddyluniad yr annedd gan gynnwys symud lleoliad ffenestr ystafell wely
9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
    a. **Cyfarfod arbennig Nos Iau 7fed o Fedi 2023**
        i. **ymddiswyddiadau**
    b. **Materion eraill**
        - **Septic Tanc** **Wedi ei gwblhau / Completed**
        - **Capel y Fynwent** **Diweddariad / Update**
        - **Hyfforddiant** **Cais am Hyfforddwr/aig**
        - **Lon Plas Pentir**
10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Orffennaf 2023
Yng Nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00 y.h

1. **Presennol: /Present**
   Cyng M Lynch Cadeirydd Cyng L A James; Cyng J Pierce; Cyng I Ellis; Cyng J Griffiths; Cyng D W Jones Cyng M Baines a'r Clerc
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng D Jones-Morris; Cyng B. Jones Cyng C Owen; Cyng A Joyce; Cyng J Lewis
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Y Clerc yn datgan buddiant rhagfarnnol am ei fod yn aelod o Grwp Diffib Rhiwlas sydd wedi anfon cais am nawdd dan pwynt 9
   Cyng L A James Cyng J Pierce a Cyng M Baines yn aelodau o bwyllgor Rheali y Ganolfan Gymuned yn Penrhos
4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 08fed o Fehefin / June 2023**
   Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce
5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   a) Llwybr llesiant
   Nodwyd fod sawl aelod wedi mynychu cyfarfod yn y Ganolfan i drafod yr Ymgynghori ar sefydlu Llwybr llesiant ar hyd Ffordd Penrhos ag i'r mwyafrif gwestiynnu y bwriad o gofio prysurdeb y ffordd yma mwy neu lai 24 awr y dydd.

   Sonwyd mae o Ysbyty Gwynedd i gyfeiriad Bangor/Penchwintan fydda'n cael y sylw cyntaf a wedyn o Ysbyty Gwynedd tuag at Capel Graig.
   Datgelwyd anfodlonrwydd ynglyn a'r fenter ar sawl pwynt yn amrywio o
   led y ffordd
   prysurdeb y ffordd
   diffyg mannau parcio/cadw beic mewn unrhyw fan
   nad yw yn syniad da i gyfuno cerddwyr a beicwyr ar yr un lleoliad
   Yr unig beth o fantais oedd bod yna fwy o leoliadau croesi Ffordd Penrhos
   b) Goriad
   Nid oedd taflen wedi ei ddarparu mewn amser i'r papur bro oedd yn golli cyfle
   Mi oedd yr Hysbyseb marchnata i mewn
   c) Cais Cynllunio Meifod
   Mi oedd y Cais wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol ond bellach oherwydd newidiadau i'r Cynllun gwreiddiol mi oedd y trigolion cyfagos bellach yn hapus erbyn hyn
   ch) Gwefan Cyngor Pentir
   Dim datbygiad wedi digwydd gan nad oedd yr Is-bwyllgor wedi cyfarfod.
   'Roedd y Clerc wedi sgwrsio hefo Delwedd ag wedi derbyn amcanbrisiau ynglyn a opsiynau i uwchraddio

6. **Materion ariannol / Financial Issues**

i. **Mantolen ariannol / Financial report**
Mantolen wedi ei rhannu yn dangos balansau y Cyngor yn y Cyfrif Cyfredol a'r Cyfrif Cadw

ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C**
Rhanwyd y Cofnodion I B C 26/06/2023 er gwybodaeth

iii. **Trosglwyddo o'r Cyfrif Cadw i'r Cyfrif Cyfredol os bydd angen**
Rhoddwyd caniatad i'r Clerc drosglwyddo £3k o'r cyfri Cadw i'r Cyfrif Cyfredol i sicrhau bod arian yn y cyfrif i dalu unrhyw archeb ddeuai i mewn yn ystod Awst pan na fyddai'r Cyngor yn Cyfarfod
Taliadau yn ystod Mis Gorffennaf/Awst Cytunwyd i'r Clerc dalu y taliadau a ganlyn ac unrhyw gais 'arferol' am daliad yn ystod Awst

7. Cymen – cyfieithu Mehefin £ 216.76 Cyng L A James Blodau a Compost i Penrhos £47.92 +

£151.78 = £ 199.70 Clerc Cost Postio £3.75 a Stampia 32 1af a 40 2ail bost £65.20 = £ 68. 95
J D Gardening 3 x toriad £75 yn Caerhun £ 225.00 D W Lewis Torri gwair Mehefin £ 780. 00
Cyngor Gwynedd Casglu gwastraff o'r mynwentydd £ 515. 00
Storfa yn Neuadd Rhiwlas Tach i Ebrill £ 240.00 Menter Fachwen Bocsus bloda £ 440.00
Cyflog a Treth Incwm y 2 fis

8. Cynllunio / Planning

d. **C23/0508/25/DT Lleoliad:- Sŵn Y Nant Caernarfon Road, Bangor, Gwynedd, LL57 4BT Estyniad cefn ac ochr ir eiddo**. Dim gwrthwynebiad

9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk

Septic Tanc
Dyddiad bellach wedi ei gytuno arno pan fyddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ogystal a llythyr wedi ei anfon at berchennog yr Hen Eglwys i ddatgan hynny
Capel y Fynwent
Cwmni CADARN wedi ymweld ag wedi eu comisiynu i edrych ar sut y gallwn wneud y gwaith addasu mewn camau gan flaenoriaethu Cam 1 fel cael dwr i mewn i'r adeoilad a chael llawr gwastad drwy'r adeilad gan os yn bosib gadw'r llawr teils lawr y rodfa
Hyfforddiant
Y Clerc wedi gwneud cais i Katherine Brown arferai redeg cyrsiau Hyfforddiant i Unllais i redeg cwrs gyda'r nos i'r holl aelodau. Katherine yn hapus i ystyried hynny ond byddai rhaid iddi gael sel bendith Unllais gan mae nhw sydd a hawlfraint y modiwlau.
Mi fyddai yn dod yn ol atom unwaith byddai wedi derbyn eu ymateb
Cesiadau Nawdd
Gofynnodd y Clerc os byddai'r Cyngor yn ystyried 3 cais oedd wedi ei dderbyn gan na fyddai IBC yn ystod Gorffennaf na chyfarfod o'r Cyngor yn Awst
Cytunwyd fel a ganlyn

- **Seintiau Bangor £300.00**
- **Grwp Diffib Rhiwlas £300.00**
- **Clwb y Garnedd £300.00**

Lon Plas Pentir
'Roedd y Clerc wedi derbyn cais yn gofyn i'r Cyngor ystyried mabwysiadu Lon Plas Pentir ag ystyried ei datblygu yn lwybr cerdded/beicio a'r IBC wedi cytuno iddo wneud rhywfaint o

ymchwil drwy'n cyfreithwyr i ddarganfod perchnogaeth yn y lle cyntaf
Cytunodd y Cyngor iddo wneud hynny

10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics

a) Cyng L A James Cyfarfod Panel Hanes Pentir

Mae peth dryswch yn dal i fodoli a'r beth yn union sydd dan sylw parthed y panel yma Cytunwyd drefnu cyfarfod rhwng Sian Shakespere – y Dylunydd Cyng L A James Cyng J Lewis y Clerc a Cynrig E Hughes oedd wedi trafod yn mater hefo'r Cynghorwyr Cymuned yn y lle cyntaf Clerc i drefnu hefo'r Cyng J Lewis

b) Cyng M Baines Llythyr at yr Esgobaeth/Esgob

Bu trafodaeth ynglyn a'i ysgrifennu at yr Eglwys yntau ysgrifennu datganiad i'r wasg ddylia ddigwydd gyntaf. Mae teimladau cryf nad oedd naill na'r Eglwys na Chyngor Gwynedd yn ceisio gwneud unrhyw ymgais i ddatrys eu anghydfod a rhai yn teimlo nad oedd y'r Esgob – Archesgob ddim mewn sefyllfa i wneud unrhyw beth i gloi yr achos
Cytunwyd fod Cyng M Baines yn ysgrifennu at yr Esgob ond fod hefyd Datganiad i'r Wasg yn cael ei ddarparu yn amlinnellu os nad oedd datrusiad dros yr haf yna byddai rhaid ystyried ail-osod giat mynedfa'r maes parcio a'i chau
Cytunwyd ymhellach i'r Cyng L A James a'r Cyng D W Jones ddarparu 'Datganiad i'r Wasg' a'i rannu hefo gweddill y Cyngor
Hefyd i'r Clerc gysylltu a'n Cyfreithwyr i amlinnellu ein bwriad gan rannu y Datganiad i'r Wasg gydag o i sicrhau ei gywirdeb cyfreithiol cyn ei rannu'n gyhoeddus
Clerc y gysylltu a chontractwr i ail-osod y giat.

c) Cyng M Baines Cyflwr Mynwent Eglwys St Cedol

Adroddwyd fod y Cynghorydd wedi derbyn sawl cwyn dros y blynyddoedd ynglyn a chyflwr y fynwent gan unigiolion oedd yn methu ymweld a beddi eu annwyliaid yn ogystal a rhai'n pryderu am wasgariad 'japanese knotweed' sy'n bresennol yno
Mae cyswllt eisioes wedi ei wneud a'r ficer lleol ond dim byd yn cael ei wneud ynglyn a'r broblem Cadarnhawyd i'r fynwent dan sylw gael ei thorri oddeutu 4 – 5 mlynedd yn ol ag i' Cyngor gyfranu haner y gost i'r Eglwys bryd hynny yn y gobaith y byddai nhw'n cadw ar ben y gwaith o hynny ymlaen. Yn anffodus dyna'r tro olaf iddi gael ei thorri
Cytunwyd ceisio dwyn perswad unwaith eto drwy'r ficer lleol

ch) Cyng J Griffiths Lon Glasinfryn / Waenwen

'Roedd y Cyng eisioes wedi dwyn i sylw'r Clerc gyflwr truenus y gyffordd rhwng y ddau ardal a'r Clerc wedi anfon y gwyn ymlaen i'r adran priffyrdd
Mae cyflwr y lon wedi bod yn wael ers blynyddoedd bellach ond dim gwaith sylweddol yn cael ei wneud arni arwahan i gau ambell dwll a hynny yn aml hefo cyflenwad anigonnol neu ormodedd o dar sy'n parhau yn wyneb anwastad